Dadansoddi ar gyfer Polisi

Analysis for Policy

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 71/2024
DYDDIAD CYHOEDDI: 10 HYDREF 2024

# Dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol: Bwletin ymchwil (rhan 2)

## Prif ganfyddiadau arolwg o arweinwyr ysgolion ac ymarferwyr

### 1. Cefndir a nodau

1.1 Mae'r bwletin hwn (rhan 2) yn cyflwyno prif ganfyddiadau arolwg o arweinwyr ysgolion ac ymarferwyr ynghylch gweithredu'r dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol yn eu lleoliadau dysgu.

1.2 Dilyniant yw'r bwletin ymchwil hwn (rhan 2) i fwletin ymchwil blaenorol a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2023.

1.3 Cynhaliwyd yr arolwg gan swyddogion o'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS) yn Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin a Gorffennaf 2023 ac roedd yn agored i bob ysgol a gynhelir.

1.4 Nod yr arolwg oedd deall cynnydd ysgolion a lleoliadau addysg i ddatblygu a chyflawni eu dull ysgol gyfan, yn ogystal â'u defnydd o adnoddau perthnasol a faint o gymorth a gafwyd i gyflawni hyn. Bwriedir i ganfyddiadau'r arolwg gyfrannu at benderfyniadau polisi a helpu i gefnogi cyflawni'r Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol yn effeithiol.

1.5 Mae'r bwletin ymchwil hwn (rhan 2) yn cyflwyno'r prif ganfyddiadau ynghylch:

- Amlder cyfathrebu rhwng ysgolion a Gwasanaeth Mewngymorth i Ysgolion CAMHS, a boddhad â'r cyfathrebu.
- Argaeledd gwasanaethau cwnsela yn yr ysgol i ddysgwyr, a'r galw amdanynt,
- Mynediad ysgolion at gyllid a'u defnydd ohono i gefnogi datblygu eu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol

- Defnydd ysgolion o ganllawiau hunan-niweidio / canllawiau hunanladdiad a modiwlau dysgu iechyd emosiynol ac iechyd meddwl ar Hwb[1],
- Llywodraethiant iechyd a llesiant mewn ysgolion,
- Sut mae ysgolion yn cynnwys dysgwyr yn eu gweithgarwch iechyd a lles.

## 2. Methodoleg

2.1 Roedd yr arolwg yn gwahodd ymatebion ar ran eu lleoliadau dysgu gan arweinwyr ysgolion (aelodau o uwch dîm rheoli'r ysgol gan gynnwys penaethiaid, penaethiaid cynorthwyol, neu ddirprwy benaethiaid) ac arweinwyr iechyd a llesiant. Cafodd yr arolwg ei ddosbarthu ar-lein.

2.2 Lle cafwyd mwy nag un ymateb ar gyfer ysgol, dim ond ymateb yr aelod staff uchaf a gynhwyswyd yn y dadansoddiad er mwyn ceisio sicrhau cynrychiolaeth gyfartal gan yr ysgolion a ymatebodd, ac â thybio eu bod yn debygol o fod â mwy o ymwybyddiaeth strategol o ddull gweithredu ysgol gyfan eu hysgolion yn gyffredinol.

2.3 Darperir manylion llawn am y fethodoleg yn y bwletin ymchwil blaenorol.

## 3. Sampl

3.1 Cafwyd cyfanswm o 152 o ymatebion. Ar ôl i ddyblygiadau gael eu dileu, roedd 136 o ymatebwyr unigryw ar ôl yn y sampl. Mae dadansoddiad wedi'i gynnal ar sail nifer yr ymatebion i bob cwestiwn.

3.2 O fewn y sampl o 136 o ymatebwyr, roedd 68% ohonynt yn benaethiaid / penaethiaid dros dro, penaethiaid cynorthwyol, neu'n ddirprwy benaethiaid.

3.3 Roedd gweddill yr ymatebwyr yn cynnwys athrawon pwnc / athrawon dosbarth (10%), penaethiaid cyfnod, blwyddyn neu adran (8%), CADY (6%), arweinwyr iechyd a llesiant (4%), cynorthwywyr addysgu lefel uwch (3%), ac eraill (1%).

### Y sampl ysgolion

3.4 Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddarparu cyfeirnod eu hysgol i nodi eu hysgol. O'r 136 ymateb, roedd 63% yn dod o ysgolion cynradd, 1% o ysgolion canol (pob oed), 13% o ysgolion uwchradd, 6% o ysgolion arbennig, ac 16% heb fod yn hysbys (lle na ddarparwyd cyfeirnod cywir i'r ysgol).

3.5 Roedd cyfran uwch o'r ymatebion i'r arolwg yn dod o'r De-orllewin a'r Canolbarth (26%) a Chanol De Cymru(26%) na'r De-ddwyrain (16%) a'r Gogledd (15%). Fel cyfran o nifer yr ysgolion ym mhob ardal ddaearyddol, roedd y cyfraddau ymateb fel a ganlyn: y De-orllewin a'r Canolbarth, 8%; Canol De Cymru, 9%; y De-ddwyrain, 9%, a'r Gogledd, 5%.

3.6 Cafodd ysgolion â chyfraddau uchel a rhai â chyfraddau isel o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac o ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol eu cynrychioli'n briodol yn y sampl. Roedd 23% o'r sampl ysgolion ymhlith y rhai â'r gyfran uchaf o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac roedd 24% ymhlith y rhai â'r gyfran uchaf o ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

3.7 Hefyd, roedd 60% o'r ysgolion a ymatebodd yn rai prif ffrwd cyfrwng Saesneg ac roedd 18% yn brif ffrwd cyfrwng Cymraeg/dwyieithog. Cafodd gweddill yr ysgolion eu categoreiddio fel ysgolion arbennig (6%) neu ddim yn hysbys (16%). Fel cyfran o'r holl ysgolion cyfrwng Saesneg, roedd yr ymatebion yn cynrychioli 8%. Y gyfran ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog oedd 6%.

---

[1] Platfform digidol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yw Hwb. Mae'n cynnig adnoddau addysgol, adnoddau ar gyfer cydweithredu, a chymorth dysgu personol i wella addysgu a dysgu yng Nghymru. Mae'n gyrchfan cynhwysfawr i addysgwyr, myfyrwyr a rhieni gael mynediad at ddeunyddiau addysgol digidol a'u defnyddio.

# 4. Cyfyngiadau

4.1 Dylid dehongli'r canfyddiadau gan ystyried y cyfyngiadau canlynol.

4.2 Roedd y canfyddiadau yn seiliedig ar 136 o ymatebion i'r arolwg ac efallai nad ydynt yn cynrychioli'r darlun llawn ar draws holl ysgolion Cymru:

- Nid oedd cyfanswm o 16% o'r ymatebion i'r arolwg yn cynnwys cyfeirnod cywir i'r ysgol ac felly nid oedd modd nodi eu hysgol.
- Y gyfradd ymateb ar gyfer yr holl ysgolion cynradd oedd 7% (86 ymateb) a 10% (18 ymateb) ar gyfer yr holl ysgolion uwchradd[2].
- Roedd y gyfradd ymateb ar gyfer y Gogledd yn is na rhanbarthau eraill.
- Roedd y gyfradd ymateb ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg / dwyieithog yn is nag ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg.

4.3 Cafodd yr arolwg ei ddosbarthu ar-lein trwy ddolen. Ni allwn fod yn sicr o rôl yr ymatebwyr na lefel eu gwybodaeth am ddull gweithredu eu hysgolion.

4.4 Pan fo'r nifer sy'n ymateb yn fach, mae'r canrannau'n destun amrywiadau llawer mwy, a dylid eu dehongli'n ofalus (e.e. y data gan ysgolion uwchradd).


4.5 Cynhaliwyd yr arolwg ym misoedd Mehefin a Gorffennaf 2023 ac felly mae'r ymatebion yn adlewyrchu cam y dasg o roi dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol arwaith ar yr adeg honno.

# 5. Canfyddiadau

5.1 Mae'r canfyddiadau isod yn gysylltiedig â'r ymatebion a gafodd eu cynnwys yn y dadansoddiad (un ar gyfer pob ysgol a wnaeth ymateb).

**Cyfathrebu gyda Gwasanaeth Mewngymorth i Ysgolion CAMHS:**

**Ffigur 5.1: A) Pa mor aml y mae yna gyfathrebu rhwng ysgolion a thîm mewngymorth CAMHS, a B) ar gyfer ysgolion uwchradd a chynradd.**




[2] Data ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd a gymerwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)

5.2 Fel y dengys Ffigur 5.1, nododd dros hanner yr ymatebwyr (55%) fod eu hysgol wedi bod yn cyfathrebu â'u tîm mewngymorth CAMHS unwaith y tymor neu'n amlach, gyda dros chwarter yr ysgolion (29%) yn nodi bod eu hysgol mewn cysylltiad â'r tîm yn llai aml nag unwaith y tymor, neu byth.

5.3 Roedd ymatebwyr o ysgolion uwchradd yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi cael cyswllt cyson na'r rhai o ysgolion cynradd (tua thri chwarter yr ysgolion uwchradd o'i gymharu â thua hanner ysgolion cynradd) (gweler Ffigur 5.1). Nododd ychydig dros draean o'r ymatebwyr o ysgolion cynradd fod eu hysgol mewn cysylltiad â'r tîm yn llai aml nag unwaith y tymor, neu byth.

5.4 Yn ogystal, roedd ymatebwyr o ysgolion yn y De-ddwyrain yn fwy tebygol o adrodd eu bod yn cyfathrebu'n aml â'u tîm mewngymorth CAMHS (rhagor na naw ysgol o bob deg) o'i gymharu â'r rhanbarthau eraill (y Gogledd, y De-orllewin a'r Canolbarth a Chanol De Cymru[3]) lle dywedodd dim ond tua un o bob dwy ysgol fod cyfathrebu'n digwydd[4] yn aml.

5.5 O'r 94 ymatebydd y cyfathrebodd eu tîm mewngymorth CAMHS â nhw, dywedodd bron i ddau o bob tri eu bod yn 'Eithaf bodlon' neu'n 'Fodlon iawn' ag ansawdd y cymorth a gawsant. Nododd ychydig llai nag un o bob pedwar eu bod 'rhywfaint yn fodlon' a dywedodd tua un o bob deg eu bod 'Ddim yn fodlon o gwbl'.

5.6 Dywedodd cyfran uwch o'r ymatebwyr o ysgolion uwchradd eu bod yn 'Eithaf bodlon' neu'n 'fodlon iawn' gydag ansawdd y gefnogaeth gan eu tîm mewngymorth CAMHS o'i gymharu ag ysgolion cynradd (tua thri chwarter yr ysgolion uwchradd o'i gymharu ag ychydig dros hanner yr ysgolion cynradd). Parhaodd y patrwm hwn pan edrychwyd ar ysgolion a nododd eu bod yn cael cyswllt rheolaidd yn unig.


**Gwasanaethau cwnsela yn yr ysgol i ddysgwyr[5]**

[3] Mae'r De-ddwyrain yn cynnwys Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy, Casnewydd. Mae'r Gogledd yn cynnwys Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, a Wrecsam. Mae'r De-orllewin a'r Canolbarth yn cynnwys Powys, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe, a Chastell-nedd Port Talbot. Mae Canol De Cymru yn cynnwys Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, a Merthyr Tudful

[4] Wedi'i seilio ar sampl o 35 o ysgolion o'r De-orllewin a'r Canolbarth, 35 ysgol o Ganol De Cymru, 22 ysgol o'r De-ddwyrain, ac 17 ysgol o'r Gogledd.

[5] Mae'r holl ddata yn yr adran hon wedi'u seilio ar sampl o 122 o ymatebion wrth fynd ati i archwilio'r data ar sail y math o leoliad. Cafwyd 74 o'r ymatebion gan ysgolion cynradd ac 16 gan ysgolion uwchradd.

**Ffigur 5.2: A) Pa mor aml y mae gwasanaeth cwnsela yn yr ysgol ar gael i ddysgwyr, a B) ar gyfer ysgolion uwchradd a chynradd**




5.7 Fel y dangosir yn Ffigur 5.2, dywedodd tua thraean o'r ymatebwyr (34%) fod gwasanaeth cwnsela yn yr ysgol ar gael i ddysgwyr unwaith yr wythnos neu'n amlach, tra nododd grŵp bach fod gwasanaeth llai aml ar gael (4%) a dywedodd ychydig dros chwarter yr ymatebwyr fod gwasanaeth ar gael 'Ar gais yn unig' (26%)[6]. Dywedodd dros chwarter yr ymatebwyr (29%) nad oes gan eu hysgol wasanaeth cwnsela yn yr ysgol.

5.8 Dywedodd yr holl ymatebwyr o ysgolion uwchradd fod gwasanaeth cwnsela yn yr ysgol ar gael i ddysgwyr unwaith yr wythnos neu'n amlach, ond tua un o bob saith yn unig o'r ymatebwr o'r ysgolion cynradd a adroddodd yr un peth (gweler Ffigur 5.2). Mewn ysgolion cynradd, nododd tua dau o bob pump o'r ymatebwyr nad oes ganddynt wasanaeth cwnsela yn yr ysgol a nododd cyfran debyg fod gwasanaeth cwnsela ar gael ar gais yn unig.

5.9 Nododd dros hanner yr ymatebwyr (54%) fod dysgwyr yn cael gwybod am wasanaethau cwnsela lleol, cyfrinachol eraill y gallant eu defnyddio. Dywedodd llai na thraean o'r ymatebwyr (30%) nad yw dysgwyr yn cael gwybod am y gwasanaethau eraill hyn. Nododd cyfran uwch o'r ymatebwyr o ysgolion uwchradd fod dysgwyr yn cael gwybod am wasanaethau cwnsela lleol, cyfrinachol eraill y gallant eu defnyddio o'u cymharu ag ysgolion cynradd (tua dwy ran o dair o ysgolion uwchradd o'i gymharu â llai na hanner yr ysgolion cynradd).


5.10 Nododd dros ddwy ran o dair o'r ymatebwyr (70%) fod y galw yn fwy na'r gwasanaethau cwnsela sydd ar gael i ddysgwyr eu hysgol (gallai hyn gynnwys darpariaeth cwnsela yn yr ysgol ac yn y gymuned), gyda llai na hanner yr ymatebwyr (44%) yn nodi 'bod y galw yn llawer mwy na'r gwasanaethau sydd ar gael'. Dim ond 15% a ddywedodd fod y gwasanaethau cwnsela sydd ar gael yn ddigonol i ateb y galw.

5.11 Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o ysgolion uwchradd (tua naw o bob deg ysgol uwchradd) fod y galw yn fwy na'r gwasanaethau cwnsela sydd ar gael i ddysgwyr eu hysgol, a oedd yn gyfran uwch nag a gafwyd gan ymatebwyr o ysgolion cynradd (ychydig dros ddwy o bob tair ysgol gynradd).

[6] Mae 'Ar gais yn unig' yn adlewyrchiad o'r mannau lle nad oes gwasanaeth cwnsela rheolaidd yn yr ysgol ar gael, ond y gellir gofyn am wasanaeth.

**Cyllid i gefnogi datblygu dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol**

**Ffigur 5.3: A) Mynediad at gyllid gan awdurdod lleol yr ysgol i gefnogi datblygu Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Lles Emosiynol a Meddyliol, a B) sut mae ysgolion wedi defnyddio'r cyllid (ceir nodi mwy nag un).**




5.12 Mae Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid i awdurdodau lleol i gefnogi gweithgarwch mewn ysgolion i wreiddio dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol. Efallai bod amrywiaeth yn y ffordd y mae'r cyllid hwn yn cael ei ddyrannu neu ei ddefnyddio i gefnogi ysgolion gan bob awdurdod lleol.

5.13 Fel y dengys Ffigur 5.3, nododd 20% o'r ymatebwyr fod eu hysgolion wedi manteisio ar yr arian gan eu hawdurdod lleol i gefnogi datblygu eu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol. Dywedodd 40% o'r ymatebwyr nad oedd eu hysgol wedi manteisio ar y cyllid ac roedd yr un faint wedi ateb nad oeddent yn gwybod.

5.14 Wrth edrych ymhellach, dywedodd bron i ddwy ran o dair o'r ymatebwyr (62%) nad oeddent yn ymwybodol o'r cyllid.

5.15 Roedd ymatebwyr o ysgolion uwchradd ychydig yn fwy tebygol o ddweud bod eu hysgol wedi manteisio ar y cyllid o'i gymharu ag ysgolion cynradd (chwarter yr ysgolion uwchradd o'i gymharu â llai na phumed rhan o'r ysgolion cynradd).[7]

5.16 Roedd ymatebwyr o'r De-ddwyrain yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi defnyddio'r cyllid (llai nag un o bob dwy ysgol) o'i gymharu ag ymatebwyr o'r Gogledd (un o bob pum ysgol), y De-orllewin a'r Canolbarth (tua un o bob saith ysgol), a Chanol De Cymru (tua un o bob dwy ysgol ar bymtheg)[8].

5.17 Fel y gwelir yn Ffigur 5.3, o'r ysgolion sydd wedi defnyddio'r cyllid, y defnydd a wnaed ohono'n amlaf oedd ar gyfer hyfforddi staff (llai na thri chwarter yr ysgolion), ac yna ymyriad(au) ar gyfer llesiant yn cyffredinol (ar gael i bob dysgwr) (dros hanner yr ysgolion), ymyriad(au) llesiant wedi'i dargedu (ar gyfer dysgwyr ag anghenion penodol) (llai na hanner yr ysgolion), cymorth llesiant i staff (dwy ran o bump o'r ysgolion), a hyfforddiant ar gyfer Uwch Reolwyr / Tîm Arweinyddiaeth (tua thraean yr ysgolion).


---

[7] Wedi'i seilio ar sampl o 75 o ysgolion cynradd ac 17 ysgol uwchradd.
[8] Wedi'i seilio ar sampl o 33 o ysgolion o'r De-orllewin a'r Canolbarth, 32 o ysgolion o Ganol De Cymru, 22 ysgol o'r De-ddwyrain, a 15 ysgol o'r Gogledd.

**Defnyddio adnoddau ar-lein i gefnogi llesiant emosiynol a meddyliol:**

*Canllawiau hunan-niweidio / hunanladdiad*

**Ffigur 5.4: A) Pa mor aml y defnyddir canllawiau 'Ymateb i faterion hunan-niweidio a theimladau hunanladdol ymhlith pobl ifanc' i athrawon, gweithwyr proffesiynol, gwirfoddolwyr a gwasanaethau ieuenctid, a B) ar gyfer ysgolion uwchradd a chynradd.**




5.18 Fel y dengys Ffigur 5.4, nododd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (52%) fod eu hysgol wedi defnyddio'r canllawiau 'Ymateb i faterion hunan-niweidio a theimladau hunanladdol ymhlith pobl ifanc'. Roedd faint o ddefnydd a wnaed ohonynt yn amrywio ymhlith yr ymatebwyr hyn gan fod traean o'r ymatebwyr yn nodi bod eu hysgol wedi defnyddio'r canllawiau 'Rhywfaint' (33%), o'i gymharu â 'Llawer' (17%) a 'Llawer iawn' (2%). Fodd bynnag, nododd dros draean o'r ymatebwyr (37%) nad oedd eu hysgol wedi defnyddio'r canllawiau.

5.19 Wrth dreiddio'n ddyfnach, dywedodd ychydig dros draean o'r ymatebwyr (35%) nad oeddent yn ymwybodol o'r canllawiau.

5.20 Dywedodd cyfran uwch o ymatebwyr o ysgolion uwchradd o gymharu ag ysgolion cynradd eu bod wedi defnyddio'r canllawiau (tua phedair rhan o bump o ysgolion uwchradd o'i gymharu â thua dwy ran o bump o ysgolion cynradd), gyda hanner yr ysgolion uwchradd yn defnyddio'r canllawiau 'Llawer iawn' neu 'Llawer' (gweler Ffigur 5.4).

5.21 Ymhlith yr ymatebwyr a oedd wedi defnyddio'r canllawiau (66 o ysgolion), disgrifiodd ychydig llai na dwy ran o dair y canllawiau fel 'Defnyddiol iawn' neu 'Eithaf defnyddiol' ac roedd llai na thraean yn nodi eu bod 'rhywfaint' yn ddefnyddiol. Roedd ymatebwyr o ysgolion uwchradd yn fwy tebygol o ddisgrifio'r canllawiau fel 'Defnyddiol iawn' neu 'Eithaf defnyddiol' o gymharu ag ysgolion cynradd (tua thri chwarter yr ysgolion uwchradd o'i gymharu â hanner yr ysgolion cynradd).

*Modiwlau dysgu ar iechyd emosiynol ac iechyd meddwl ar gael ar Hwb*

5.22 Dywedodd llai na hanner yr ymatebwyr (46%) fod eu hysgol wedi defnyddio'r modiwlau dysgu iechyd emosiynol ac iechyd meddwl ar Hwb[9]. O'r ymatebwyr hyn, roedd y rhan fwyaf yn nodi bod eu hysgol wedi eu defnyddio 'Rhywfaint' (33%), o'i gymharu â 'Llawer' (12%) a 'Llawer iawn' (1%). Fodd bynnag, nododd llai na hanner yr ymatebwyr (45%) nad oedd eu hysgol wedi defnyddio'r modiwlau. Nid oedd 9% arall yn gwybod a oedd eu hysgol wedi defnyddio'r modiwlau.

[9] Wedi'i seilio ar sampl o 129 o ymatebion.

5.23 Wrth dreiddio'n ddyfnach, dywedodd bron i hanner yr ymatebwyr (47%) nad oeddent yn ymwybodol o'r modiwlau.

5.24 Roedd ymatebwyr o ysgolion uwchradd yn fwy tebygol o ddweud bod eu hysgol wedi defnyddio'r modiwlau o'i gymharu ag ysgolion cynradd (tua dwy ran o dair o'r ysgolion uwchradd o'i gymharu â dwy ran o bump o'r ysgolion cynradd)[10].

5.25 Ymhlith yr ymatebwyr a oedd wedi defnyddio'r modiwlau (54 ysgol), dywedodd dros hanner eu bod 'rhywfaint yn ddefnyddiol', a nododd dros ddwy ran o bump eu bod yn 'Eithaf defnyddiol' neu'n 'ddefnyddiol iawn'. Roedd ymatebwyr o ysgolion uwchradd yn llai tebygol o adrodd bod y modiwlau yn ddefnyddiol 'Iawn' neu 'Eithaf' o'i gymharu ag ysgolion cynradd (tua thraean o'r ysgolion uwchradd o'i gymharu â hanner yr ysgolion cynradd).

**Llywodraethiant ysgolion ar gyfer iechyd a lles:**

5.26 Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod gan eu hysgolion arweinydd strategol ar gyfer iechyd a llesiant (90%) a chynllun / targedau iechyd a llesiant ysgrifenedig (87%)[11].

5.27 Dywedodd cyfran uwch o'r ymatebwyr o ysgolion cynradd o'i gymharu ag ysgolion uwchradd fod gan eu hysgolion arweinydd strategol ar gyfer iechyd a llesiant (bron pob ysgol gynradd o'i gymharu â phedair o bob pum ysgol uwchradd) a chynllun / targedau iechyd a llesiant ysgrifenedig (mwy na naw o bob deg ysgol gynradd o'i gymharu â phedair o bob pum ysgol uwchradd).[12]

5.28 O'r 118 o ysgolion sydd â chynllun / targedau iechyd a llesiant ysgrifenedig, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (84%) fod yr Uwch Reolwyr / Tîm Arweinyddiaeth yn asesu cynnydd yn ffurfiol o leiaf bob blwyddyn. Nododd grŵp llai o ymatebwyr fod eu cynnydd yn cael ei asesu'n llai aml na phob blwyddyn (9%) neu ddim o gwbl (6%). Roedd y patrwm hwn yn debyg yn yr ymatebion o ysgolion cynradd ac uwchradd fel ei gilydd[13].

5.29 O'r 118 o ysgolion gyda chynllun / targedau iechyd a llesiant ysgrifenedig, nododd yr ymatebwyr mai'r ffyrdd mwyaf cyffredin i fyfyrwyr ymwneud â datblygu cynllun gweithredu neu dargedau ysgrifenedig iechyd a llesiant eu hysgol oedd drwy gefnogi gweithredu'r cynllun gweithredu neu'r targedau (31%) a monitro a/neu adolygu'r cynllun gweithredu neu'r targedau (31%). Adroddwyd hefyd bod dysgwyr yn rhan o ddatblygu cynnwys y cynllun gweithredu neu'r targedau (27%), gan roi sylwadau ar y cynllun gweithredu neu'r targedau (22%), ysgrifennu fersiwn hawdd ei ddefnyddio i ddysgwyr (12%), a chynnig pryd roedd angen cynllun gweithredu neu dargedau newydd (neu fod angen diwygio cynllun gweithredu neu dargedau presennol) (7%).

5.30 Nododd grŵp o ymatebwyr (15%%) nad oedd eu lleoliadau'n cynnwys myfyrwyr wrth ddatblygu eu cynllun gweithredu na'u targedau.

## 6. Casgliadau

6.1 Dylid dehongli'r canlyniadau hyn yn ofalus oherwydd y cyfyngiadau a nodir yn yr adran fethodoleg, gan gynnwys bod y canfyddiadau'n adlewyrchu cam gweithredu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol ar yr adeg y cynhaliwyd yr arolwg (Mehefin a Gorffennaf 2023).

6.2 Yn gyffredinol, ni adroddwyd yn gyson am gyfathrebu rheolaidd rhwng ysgolion a'u tîm mewngymorth CAMHS:

- Roedd y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd yn nodi cysylltiad cyson â'u tîm mewngymorth CAMHS ond roedd cysylltu'n digwydd yn llai aml gydag ysgolion cynradd,

[10] Wedi'i seilio ar sampl o 79 o ysgolion cynradd ac 18 ysgol uwchradd.
[11] Wedi'i seilio ar sampl o 136 o ymatebion.
[12] Wedi'i seilio ar sampl o 86 o ysgolion cynradd ac 18 ysgol uwchradd.
[13] Wedi'i seilio ar sampl o 80 o ysgolion cynradd ac 15 ysgol uwchradd.

- Ar y cyfan, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon ag ansawdd y gefnogaeth gan eu tîm mewngymorth CAMHS, yn enwedig y rhai o ysgolion uwchradd.
- Roedd gwahaniaethau rhanbarthol gydag ymatebwyr o ysgolion yn y De-ddwyrain yn adrodd eu bod yn cyfathrebu'n amlach.

6.3 Roedd argaeledd gwasanaethau cwnsela yn yr ysgol i ddysgwyr yn amrywio'n sylweddol:

- Dywedodd pob ysgol uwchradd eu bod yn cynnig gwasanaethau cwnsela aml i ddysgwyr tra bod ysgolion cynradd yn darparu'r gwasanaethau hyn yn llawer llai aml, ac fel arfer roedd gwasanaethau cwnsela ar gael i ddysgwyr oedran cynradd ar gais yn unig neu ddim o gwbl,
- Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod y galw am gwnsela yn fwy na'r ddarpariaeth sydd ar gael, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd.

6.4 Mae Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid i awdurdodau lleol i gefnogi gweithgarwch mewn ysgolion i sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol. Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr nad oedd eu hysgol yn defnyddio'r cyllid, ac nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ymwybodol o'r cyllid. Dylai'r canfyddiad hwn gael ei ddehongli'n ofalus oherwydd efallai nad yw'r ymatebydd mewn sefyllfa dda i wybod a yw ei ysgol wedi cyrchu'r cyllid hwn, neu, fel arall, efallai bod yr awdurdod lleol wedi dosbarthu'r cyllid i'r ysgol fel rhan o ddyraniad ehangach heb bennu at ba fwriad y dylid ei ddefnyddio:

- Roedd gwahaniaethau rhanbarthol, gydag ymatebwyr o ysgolion yn y De-ddwyrain yn fwy tebygol o ddweud bod eu hysgol wedi manteisio ar y cyllid,
- Ymhlith y lleiafrif o ysgolion a oedd wedi manteisio ar y cyllid, fe'i defnyddiwyd amlaf ar gyfer hyfforddi staff.

6.5 Yn gyffredinol, roedd y defnydd a wnaed o'r canllawiau 'Ymateb i faterion hunan-niweidio a theimladau hunanladdol ymhlith pobl ifanc' a'r modiwlau dysgu emosiynol ac iechyd meddwl ar Hwb yn isel ac adroddodd y rhan fwyaf o ysgolion eu bod yn defnyddio ychydig ar yr adnoddau neu ddim o gwbl:

- Roedd y defnydd o'r ddau adnodd yn llawer uwch mewn ysgolion uwchradd, yn enwedig ar gyfer y canllawiau hunan-niweidio / hunanladdiad,
- Nid oedd grŵp sylweddol o ysgolion yn ymwybodol o bob adnodd, yn enwedig o ran y modiwlau,
- Roedd y rhan fwyaf o ysgolion a oedd yn defnyddio'r canllawiau hunan-niweidio / hunanladdiad yn eu gweld yn ddefnyddiol, yn enwedig ymhlith ysgolion uwchradd, tra bod y modiwlau yn cael eu hystyried yn llai defnyddiol.

6.6 Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion arweinydd strategol a chynllun / targedau ysgrifenedig ar gyfer iechyd a lles, yn enwedig mewn ysgolion cynradd, ac asesir cynnydd fel arfer yn erbyn y cynllun / targedau o leiaf bob blwyddyn.

6.7 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynnwys eu dysgwyr wrth ddatblygu cynllun gweithredu neu dargedau iechyd a llesiant ysgrifenedig eu hysgol, gyda dysgwyr yn ymwneud amlaf â chefnogi eu rhoi ar waith, a monitro / adolygu'r cynllun gweithredu neu'r targedau.

6.8 Bwriedir i ymchwil ansoddol adeiladu ar ganfyddiadau'r arolwg hwn i archwilio'n fwy manwl y rhwystrau y mae ysgolion a lleoliadau addysg wedi'u profi wrth weithredu eu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol a datblygu enghreifftiau o arfer da. Disgwylir i'r gwaith ymchwil hwn gael ei gyhoeddi yn ystod gwanwyn 2025.

Awdur y bwletin: Dr Daniel Burley, Llywodraeth Cymru.

Safbwyntiau’r ymchwilydd a fynegir yn y bwletin hwn ac nid, o reidrwydd, rai Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Y Gangen Ymchwil Ysgolion
YrIs-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth,
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: ymchwilysgolion@llyw.cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83625-640-3